

Strategaeth cyfathrebu ac ymgysylltu 2023 – 2027

Fersiwn 1: Mai 2023

Adolygiad: Mai 2024

Cynnwys

Cyflwyniad	3
Ein strategaeth	3
Nod.....	3
Amcanion	3
Egwyddorion.....	5
Ein llais.....	6
Negeseuon craidd	6
Amcan strategol un: Ymwybyddiaeth a hyder	7
Amcan strategol dau: Atebolrwydd.....	8
Amcan strategol tri: Arwain gwelliannau	8
Amcan strategol pedwar: Perfformiad uchel.	9
Pwy ydym ni	10
Cyflwyniad cyflym.....	10
Plât boeler.....	10
Rhanddeiliaid.....	11
Cyflwyno.....	12
Gwerthuso a mesur	15
Adolygu	15

Cyflwyniad

Yn Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (SAYH), ein gorchwyl yw gwella plismona trwy oruchwyliaeth annibynnol o gwynion yr heddlu, dwyn yr heddlu i gyfrif a sicrhau bod dysgu yn effeithio ar newid. Mae cyfathrebu ac ymgysylltu yn chwarae rhan hanfodol wrth gyflawni'r gorchwyl hwn trwy feithrin ymddiriedaeth, hyrwyddo tryloywder a dangos sut y gall SAYH weithiau weithredu fel brocer gonest rhwng yr heddlu a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

Byddwn yn defnyddio'r strategaeth hon i arwain gwaith y timau ymgysylltu a chyfathrebu, ond mae pawb yn ein sefydliad yn berchen arni. Mae gan bob un ohonom ran i'w chwarae wrth eiriol dros yr hyn a wnawn, ni waeth beth yw eich rôl - felly mae'r strategaeth hon yn perthyn i bawb.

Mae'r strategaeth yn nodi dull newydd o ymgysylltu a chyfathrebu â'n rhanddeiliaid sy'n cyd-fynd yn agos â'n cynllun strategol, 'Meithrin ymddiriedaeth a hyder mewn plismona'.


Ein strategaeth

Nod

Defnyddio gweithgareddau cyfathrebu, ymgysylltu ac eiriolaeth effeithiol i feithrin ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a hyder yn system gwynion yr heddlu a'n gwaith.

Amcanion

Bydd y strategaeth hon yn ceisio cyflawni saith amcan clir sy'n canolbwyntio ar:



Yr amcanion yw:

1. Byddwn yn canolbwyntio ar gynyddu lefelau ymwybyddiaeth, ymddiriedaeth a hyder ymhlith y cyhoedd, yn enwedig o fewn y grwpiau hynny sydd â'r hyder lleiaf ac ar y materion sy'n peri'r pryder mwyaf.
2. Byddwn yn codi proffil SAYH gyda gwaith cyfathrebu, ymgysylltu a materion cyhoeddus rhagweithiol, hyderus a - phan fydd angen - sy'n dangos ein hannibyniaeth a'n heffaith.
3. Byddwn yn gwrando ar ac yn cydweithio â rhanddeiliaid presennol a newydd fel eu bod yn cael eu hysbysu ac yn cymryd rhan yn ein gweithgaredd, a byddwn yn defnyddio eu mewnwelediad a'u hadborth i lywio a gwella ein gwaith.
4. Byddwn yn defnyddio ein dysgu, tystiolaeth a dylanwad fel brocer gonest i gynnull ein rhanddeiliaid a nodi ffyrdd y gallwn wella plismona gyda'n gilydd.
5. Byddwn yn cynhyrchu cynlluniau cyfathrebu ac ymgysylltu o ansawdd uchel i gynorthwyo ein cydweithwyr i arwain, dylanwadu ac eiriol dros newid er mwyn gwella'r system gwynion a meithrin hyder mewn plismona.
6. Byddwn yn defnyddio ein sianeli cyfathrebu ac ymgysylltu mewnol i ysbrydoli cydweithwyr, gan eu hysbysu a'u cynnwys yn ein gwaith a'u cynorthwyo i fod yn llysgenhadon cryf i SAYH.
7. Byddwn yn gwella ein gallu a'n systemau cyfathrebu ac ymgysylltu, fel bod gennym y sgiliau, yr offer a'r adnoddau cywir i ddarparu cyfathrebu ac ymgysylltu sy'n cael effaith.

Egwyddorion

Bydd sut rydym yn cyflawni ein gwaith yn cael ei lywio gan yr egwyddorion canlynol.

Canolbwyntio ar y gynulleidfa

- Byddwn yn canolbwyntio ar bwy rydym yn ceisio cyfathrebu â nhw, ymgysylltu â nhw neu eu perswadio.
- Byddwn yn teilwra ein gwaith cyfathrebu ac ymgysylltu i anghenion ein cynulleidfaoedd er mwyn cynyddu effeithiolrwydd.

Rhagweithiol

- Byddwn yn mynd allan gyda negeseuon cadarnhaol, hyderus ac weithiau dewr i adrodd ein stori.
- Byddwn yn defnyddio ein tystiolaeth i wneud cyfraniadau allweddol mewn meysydd perthnasol, gan arwain dadl a sbarduno newid.

Adrodd storïau

- Bydd ein cynnwys yn ddeniadol ac yn gymhellol, yn atseinio â chynulleidfaoedd presennol ac yn cyrraedd rhai newydd.

Perthnasoedd

- Byddwn yn cynnal perthnasoedd cadarnhaol presennol â'n cynulleidfaoedd a grwpiau rhanddeiliaid, yn ogystal â meithrin perthnasoedd newydd.
- Byddwn yn annog rhanddeiliaid i ymhelaethu ar negeseuon ar ein gwaith a'n heffaith, wrth i ni ymhelaethu ar eu rhai nhw.

Cydgynhyrchu

- Byddwn yn cydweithio â rhanddeiliaid ar waith a fydd yn sicrhau newid mewn plismona.
- Byddwn yn defnyddio ein sianeli cyfathrebu ac ymgysylltu mewnol i sicrhau bod staff yn teimlo eu bod yn rhan o waith y SAYH ac yn cael eu cynnwys ynddynt.

Gwranddo

- Byddwn yn gwranddo ar ein rhanddeiliaid fel y gallwn gynrychioli eu barn a'u profiadau i lywio ein gwaith.
- Byddwn yn creu ffyrdd mwy ystyrlon o ddangos ein bod wedi gwranddo ac wedi gweithredu mewn ymateb (fel adroddiadau 'dywedoch chi, gwnaethom ni').

Dan arweiniad digidol

- Byddwn yn cynhyrchu cynnwys cyfoethog sy'n fodern, yn hygyrch ac yn ddeniadol i gynulleidfaoedd ehangach.

Ein llais

Bydd yr hyn a ddywedwn a sut rydym yn ei ddweud yn chwarae rhan fawr yn y ffordd rydym yn dod ar draws ein rhanddeiliaid sy'n cwmpasu cydweithwyr, partneriaid, defnyddwyr gwasanaethau, y cyfryngau - yn ogystal â'r cyhoedd.


Drwy weithio gyda'n cynulleidfaoedd mewnol ac allanol rydym wedi datblygu arddull cyfathrebu ac ymgysylltu sy'n dangos ein personoliaeth, a fydd yn canolbwyntio ar y gynulleidfa, yn seiliedig ar dystiolaeth, yn dryloyw, yn ddynol, yn glir, yn ddigynnwrf, yn hyderus ac yn awdurdodol.

Ond mae hyn yn mynd ymhellach na gweithgareddau penodol a wneir gan y timau cyfathrebu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, megis creu cynnwys gwe, cynnal digwyddiadau ymgysylltu a chyhoeddi datganiadau i'r cyfryngau. Mae'n ymestyn i'n holl waith gan gynnwys polisïau, strategaethau, gohebiaeth, adroddiadau, cyflwyniadau, areithiau a chyswllt uniongyrchol â defnyddwyr gwasanaeth mewn meysydd fel ymchwiliadau a gwaith achos.

Mae'r tîm cyfathrebu wedi datblygu dogfen tôn llais sy'n nodi mwy am sut rydym yn defnyddio "personoliaeth" ein sefydliad i fynegi ein gwerthoedd ac ymgysylltu â'n rhanddeiliaid.

Negeseuon craidd

Mae ein cynllun strategol – 'Meithrin ymddiriedaeth a hyder mewn plismona' – yn nodi ein hamcanion ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Dylai ein holl weithgarwch cyfathrebu ac ymgysylltu gael ei wreiddio yn y cynllun hwn gyda'n holl negeseuon wedi'u cysylltu'n glir â'n pedwar amcan strategol:



Rhan o becyn cymorth hanfodol ein strategaeth yw darparu negeseuon craidd sy'n gysylltiedig â'n hamcanion strategol. Dylai'r negeseuon craidd hyn gael eu gwau ledled ein gweithgarwch cyfathrebu ac ymgysylltu ffurfiol. Dylent hefyd gael eu defnyddio'n anffurfiol gan bawb sy'n gweithio yn SAYH oherwydd nid yw cyfathrebu ac ymgysylltu yn rhywbeth a wneir gan y timau cyfathrebu ac ymgysylltu yn unig. Dylai pawb sy'n gweithio yn SAYH fod yn eiriolwr i'r sefydliad a gallu egluro beth rydym yn ei wneud a sut rydym yn mynd ati.

Rydym felly wedi datblygu un neges graidd ar gyfer pob un o'n hamcanion strategol, ynghyd â "chyflwyniad cyflym" a "phlât boeler", a esbonnir yn fanylach isod. Mae'r rhain yn cefnogi ein hegwyddor sy'n canolbwyntio ar y gynulleidfa a dylent ganolbwyntio ar y ffaith ein bod yn darparu gwasanaeth cyhoeddus.

Amcan strategol un: Ymwybyddiaeth a hyder

Mae'r amcan strategol cyntaf yn canolbwyntio ar sut rydym am i bobl wybod am y system gwynion a bod yn hyderus i'w defnyddio. Byddwn yn cyflawni ein cynllun strategol, 'Meithrin ymddiriedaeth a hyder mewn plismona' drwy:

- ymgysylltu â chymunedau a'r cyhoedd i ddeall materion sy'n effeithio ar eu hyder mewn plismona. Byddwn yn gweithio gyda nhw i hysbysu sut y gall SAYH ddefnyddio ei waith i ymateb
- codi ymwybyddiaeth o system gwynion yr heddlu fel bod pobl yn deall eu hawl i gwyno, sut i gael mynediad i'r system a sut y dylai'r heddlu ymateb pan godir pryderon
- codi hyder yn y system gwynion fel y bydd y cyhoedd yn ei ddefnyddio pan fydd angen arnynt – dangos ei fod yn ymateb i faterion sy'n effeithio arnynt a chyflawni canlyniadau a gwelliannau priodol i blismona
- codi ymwybyddiaeth o rôl unigryw SAYH ac effaith ein gwaith, fel bod y cyhoedd yn hyderus bod goruchwyliaeth annibynnol o'r system gwynion a digwyddiadau difrifol sy'n ymwneud â'r heddlu.

O'r wybodaeth hon rydym wedi adeiladu ein neges graidd gyntaf:

Neges graidd un:

Rydym yn glir pwy ydym ni a sut mae'r system gwynion yn gweithio fel y gallwch chi fod yn hyderus ynglŷn â'i defnyddio.

Amcan strategol dau: Atebolrwydd

Mae'r amcan hwn yn nodi sut mae'r system gwynion yn darparu canlyniadau teg sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n dal yr heddlu i gyfrif drwy:

- gael y cydbwysedd cywir o waith ar draws y sefydliad cyfan - sicrhau bod ein gwaith yn ymateb i faterion sy'n effeithio ar hyder y cyhoedd yng nghyfreithlondeb yr heddlu drwy ddewis y cymysgedd cywir o waith – boed hynny'n ymchwiliadau annibynnol, gweithio gydag eraill i ymateb i gwynion uwch, gosod a monitro safonau ar gyfer ymdrin â chwynion, adolygu sut yr ymdriniwyd â chwynion, rhannu gwersi neu wneud argymhellion i wella plismona – i gael yr effaith fwyaf ar hyder y cyhoedd
- cynnal hygredd drwy gael y pethau sylfaenol yn gywir - sicrhau bod ein gwaith yn amserol ac o ansawdd uchel fel ei fod yn diwallu anghenion ein defnyddwyr gwasanaeth ac yn gwrthsefyll craffu allanol
- cynnal trosolwg cadarn o system gwynion yr heddlu – ymyrryd lle mae tystiolaeth yn awgrymu nad yw'r ymdriniaeth leol yn effeithiol nac yn gyson a gweithio gyda heddluoedd, y Comisiynwyr Heddlu a Throsedd ac eraill i wella amseroldeb ac ansawdd ar draws y system.

Neges graidd dau:

Mae ein rôl unigryw ac annibynnol yn golygu ein bod yn dal yr heddlu i gyfrif fel y gallwch ymddiried yn y system gwynion.

Amcan strategol tri: Arwain gwelliannau

Mae'r amcan hwn yn nodi sut y bydd ein tystiolaeth a'n dylanwad yn gwella plismona drwy:

- ddefnyddio ein hannibyniaeth a'n tystiolaeth o'n gwaith i fod yn llais awdurdodol y gellir ymddiried ynddo wrth alw am newid i wella plismona, yn enwedig mewn meysydd sy'n effeithio ar hyder y cyhoedd
- gweithio gyda'r rhai sy'n darparu plismona i wneud yr achos dros y gwelliannau hynny – arwain, dod â nhw at ei gilydd a'u perswadio fel bod ein hargymhellion yn arwain at newid diriaethol
- gweithio gyda phartneriaid fel y Coleg Plismona, Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi ac eraill fel bod ein gwaith yn dylanwadu ac yn ategu eu rhai nhw. Gallwn ddangos i'r cyhoedd ein bod yn rhan o ymateb system gyfan i'r materion sy'n effeithio ar eu hyder mewn plismona.

Neges graidd tri:

Rydym yn helpu i wella plismona drwy ein gwaith a'n harweinyddiaeth – gan wneud gwahaniaeth i'r materion sy'n bwysig i chi.

Amcan strategol pedwar: Perfformiad uchel.

Mae hwn yn nodi sut y byddwn yn sefydliad sy'n cyflawni perfformiad uchel drwy:

- fod yn fwy na dim ond effeithlon, effeithiol a lle gwych i weithio – sef ein ffocws o'r blaen. Mae'r cyfeiriad yn symud tuag at gynorthwyo a galluogi perfformiad uchel a chynnig gweithio hybrid da iawn. Mae'n ymwneud â bod yn gost-effeithiol o hyd – ond mae'n rhaid i ni hefyd feddwl am ein cynaliadwyedd ehangach.
- rhoi'r offer cywir i gydweithwyr. Mae hynny'n ymwneud â chael y TGCh, y cit a'r cymwysiadau cywir.
- rhoi rheolaeth i bobl dros eu datblygiad a'r sgiliau y bydd eu hangen arnynt wrth i'n gwaith ddod yn fwy cymhleth
- arwain yn unol â'n gwerthoedd a'n harweinyddiaeth gan gael cynlluniau clir ar gyfer y dyfodol
– gydag ymagwedd gytbwys tuag at risg. Mae hynny'n cynnwys llywodraethu, archwaeth risg ac arloesi.
- meddu ar ddata da i gynhyrchu mewnwelediad a gwybodaeth reoli dda i reoli perfformiad
- cynrychioli'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu fel arloeswyr cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Neges graidd pedwar:

Rydym yn sefydliad sy'n gwneud mwy na thalu gwasanaeth gwefusau i amrywiaeth a chynhwysiant, gan ddefnyddio gwybodaeth broffesiynol a phrofiad bywyd ein cydweithwyr i helpu cyflwyno'r achos dros newid ystyrlon.

Pwy ydym ni

I ategu'r negeseuon craidd hyn rydym hefyd wedi datblygu dwy neges gyffredinol sy'n esbonio'n glir ac yn gryno pwy ydym ni, beth rydym yn ei wneud a sut rydym yn mynd ati.

Y cyntaf yw "cyflwyniad cyflym", sy'n grynodedb cryno, perswadiol a dealladwy. Fe'i gelwir yn gyflwyniad cyflym oherwydd y dylai fod yn ddigon byr i rywun ei ddweud mewn taith fer mewn lifft. Ond mae ei gymhwysiad yn llawer ehangach na hynny. Mae'n arf pwerus, y gall unrhyw un yn ein sefydliad ei ddefnyddio i ddal sylw ein rhanddeiliaid, sy'n cyfleu'r hyn rydym i gyd yn ei gylch mewn ffordd glir a chymhellol.

Rydym ni hefyd wedi creu plât boeler. Mae plât boeler yn ddisgrifiad safonol o sefydliad y gellir ei ddefnyddio mewn amrediad eang o leoliadau. Mae'n ein helpu i sicrhau cysondeb a chywirdeb mewn negeseuon ar draws gwahanol sianeli cyfathrebu ac ymgysylltu, gweithgaredd a deunyddiau.

Cyflwyniad cyflym

Ni yw Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu, corff gwarchod cwynion yr heddlu. Nid ni yw'r heddlu – rydym yn gwbl annibynnol iddynt.

Ein gwaith ni yw sicrhau bod yr heddlu yn ymchwilio i gwynion amdanynt yn briodol a bod y system yn gweithio. Rydym yn ymchwilio i'r digwyddiadau mwyaf difrifol a sensitif yn ymwneud â'r heddlu ein hunain. Rydym yn defnyddio'r dystiolaeth o'n gwaith i ysgogi gwelliannau mewn plismona.

Plât boeler

Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu yw corff gwarchod cwynion yr heddlu. Nid ni yw'r heddlu ac rydym yn gwbl annibynnol iddynt.

Rydym yn gosod y safonau ar gyfer system gwynion yr heddlu. Rydym yn sicrhau bod yr heddlu yn ymchwilio i gwynion amdanynt yn briodol. Rydym hefyd yn ymchwilio i'r digwyddiadau mwyaf difrifol a sensitif yn ymwneud â'r heddlu ein hunain.

Trwy ein gwaith, rydym yn dal yr heddlu i gyfrif pan fydd pethau'n mynd o'u lle, yn argymhell newidiadau i atal yr un camgymeriadau rhag ddigwydd eto ac yn hyrwyddo safonau uchel o blismona. Rydym yn defnyddio ein tystiolaeth i ysgogi gwelliannau yn arferion yr heddlu er budd y cyhoedd a'r heddlu. Bydd hyn yn helpu i gyflawni ein gweledigaeth i bawb allu cael ymddiriedaeth a hyder mewn plismona.

Rhanddeiliaid

Rydym wedi ymrwymo i ddeall gwahanol anghenion, safbwyntiau a chymhellion ein holl randdeiliaid, gan gynnwys y rhai sy'n feirniadol o'n gwaith.

Byddwn yn defnyddio adborth a gwybodaeth i addasu ein dulliau cyfathrebu ac ymgysylltu i wella hygyrchedd ac effaith ein gwaith ar gyfer ein holl randdeiliaid. Rydym yn cydnabod yr heriau y mae rhai rhanddeiliaid yn eu hwynebu wrth ymgysylltu â SAYH a'r system gwynion, a byddwn yn defnyddio gwahanol ffyrdd i gefnogi ymgysylltiad ystyrion â ni.

Mae ein rhanddeiliaid wedi'u categorio dros chwe grŵp eang, sy'n gorgyffwrdd mewn rhai meysydd:

<p>Defnyddwyr gwasanaeth</p> <ul style="list-style-type: none"> • Teuluoedd mewn profedigaeth • Swyddogion heddlu, staff a chontractwyr • Achwynwyr, apelyddion a chynrychiolwyr • Contractwyr a gyflogir gan y prif gwnstabl • Partïon â diddordeb/tystion • Uwch-achwynwyr • Adrannau safonau proffesiynol yr heddlu 	<p>Rhanddeiliaid anstatudol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cymunedau • Sector gwirfoddol, cymunedol a ffydd • Grwpiau eiriolaeth • Dylanwadwyr allweddol • Academyddion ac arbenigwyr eraill • Cyrff proffesiynol - Ffederasiwn yr Heddlu, Cymdeithas Uwcharolygwyr yr Heddlu, undebau 	<p>Rhanddeiliaid statudol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Heddluoedd • HMICFRS • Coleg Plismona • Gwasanaeth Eryl y Goron • Crwneriaid • Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau • Cyrff eraill rydym yn eu goruchwyllo (e.e. Asiantaeth Trosedd Cenedlaethol) • ASau, Aelodau o'r Senedd, arglwyddi ac aelodau etholedig eraill • Llywodraeth
<p>Y cyfryngau</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gohebwyrr gwleidyddol, materion cartref a throseddau cenedlaethol • Cyfryngau lleol • Cyfryngau arbenigol 	<p>Y cyhoedd</p> <ul style="list-style-type: none"> • Grwpiau hyder isel - e.e. cymunedau lleiafrifoedd ethnig, pobl ifanc • Cyhoedd cyffredinol 	<p>Rhanddeiliaid mewnol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyfarwyddwyr anweithredol • Rhwydweithiau staff • Undebau • Bwrdd rheoli • Rheolwyr llinell • Gweithlu ehangach

Cyflwyno

Byddwn yn cyflawni'r strategaeth hon drwy gynnal amrywiaeth o weithgareddau wedi'u cynllunio, yn ogystal ag ymateb yn gyflym i faterion a digwyddiadau pan fyddant yn codi. Bydd pob un o'r swyddogaethau craidd o fewn y timau cyfathrebu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid yn datblygu cynlluniau cyflawni, gan gysylltu ein gweithgarwch a'n hallbynnau yn ôl ag amcanion y strategaeth hon, sy'n cynorthwyo'r rhai yn 'Meithrin ymddiriedaeth a hyder mewn plismona'. Mae hon yn strategaeth hirdymor, ond mae'n llywio ein gwaith uniongyrchol, felly ar gyfer 2023/24, bydd y canlyniadau hyn yn cynnwys:

Gweithgarwch cyfathrebu ac ymgysylltu ar y cyd

- Datblygu dealltwriaeth fwy soffistigedig o hyder y cyhoedd, gan gynnwys pa grwpiau demograffig sydd â'r hyder lleiaf a'r ffactorau dylanwadol sy'n cyfrannu at 'hyder isel'.
- Cynhyrchu cyhoeddiadau a chynhyrchion o ansawdd uchel sy'n ymgysylltu â'n rhanddeiliaid.
- Datblygu cynllun rheoli argyfwng ar gyfer cyfathrebu ac ymgysylltu.
- Datblygu polisi ymgysylltu siarad ar gyfer cydweithwyr SAYH.
- Parhau i ddarparu cymorth cyfathrebu ac ymgysylltu i ymchwiliad Hillsborough.

Gweithgaredd cyfathrebu

Cyfathrebu: Cyfryngau

- Datblygu cynllun cyfryngau rhagweithiol blynyddol sy'n ymestyn ein proffil y tu hwnt i ymchwiliadau, gan ystyried meysydd eraill fel ein gwaith thematig a throsolwg. Mae hyn yn dibynnu ar gyfathrebu'n gynnar gan wasanaethau eraill yn eu gweithgareddau.
- Bydd gennym lefarwyr allweddol sydd â'r adnoddau priodol i roi llais i'n sefydliad fel y gallwn adrodd ein stori mewn ffordd gymhellol.
- Adeiladu ar ein perthnasoedd cadarnhaol â'r cyfryngau a phartneriaid i

weithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid

SE: Ymgysylltu cenedlaethol

- Cydlynu Panel Ieuencid y SAYH a chefnogi cyflwyno eu hargymhellion i'r SAYH a phlisona.
- Cyflwyno rhaglen flynyddol o gyfarfodydd a digwyddiadau rhanddeiliaid corfforaethol i roi cyngor, her ac adborth adeiladol ar waith y SAYH.
- Ymgysylltu a chydgyhyrchu ystyrion â rhanddeiliaid trwy ein prosiect Partneriaethau Rhanddeiliaid.

<p>ymateb yn gyflym, yn effeithiol ac yn briodol i ymholiadau gan y cyfryngau.</p> <ul style="list-style-type: none"> Nodi cyfleoedd i roi arweiniad meddwl trwy erthyglau yn y cyfryngau cenedlaethol ac arbenigol.
<p>Cyfathrebu: Corfforaethol</p>
<ul style="list-style-type: none"> Datblygu calendr ymgyrchu i gynllunio ein gwaith. Bod yn rhan o ddatblygiad polisi a gwasanaeth o gyfnod cynnar, nid dim ond cyn cyhoeddi / gweithredu, i sicrhau bod amcanion cyfathrebu yn cyd-fynd ag amcanion polisi.
<p>Cyfathrebu: Cynnwys a dyluniad</p>
<ul style="list-style-type: none"> Bod yn warcheidwad brand ar gyfer SAYH i sicrhau bod ein holl gynnyrch mewn fformat clir, cyson ac adnabyddadwy a bod naws ein llais yn gyson drwyddi. Sicrhau bod ein holl negeseuon a chynhyrchion cyfathrebu yn hygyrch. Parhau i gynhyrchu adroddiadau o ansawdd uchel ond mewn ffordd sy'n ymgysylltu ac yn hysbysu – mae angen i ni symud i ffwrdd o duedd sefydliadol i gredu bod “tryloywder” yn cael ei gyflawni trwy roi dogfennau ar y wefan yn unig.
<p>Cyfathrebu: Digidol</p>
<ul style="list-style-type: none"> Manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i gysylltu â chymunedau a rhanddeiliaid gyda dull a arweinir yn ddigidol

<ul style="list-style-type: none"> Ddarparu arbenigedd a chymorth i alluogi darpariaeth effeithiol ac effaith gynyddol gwaith thematig SAYH. Rhoi'r wybodaeth a'r deunyddiau i sefydliadau ledled Cymru a Lloegr allu cynorthwyo achwynwyr posibl i ddeall eu hawliau a gwneud cwyn. Gweithio'n fwy effeithiol gyda phartneriaid i rannu gwybodaeth am dueddiadau sy'n dod i'r amlwg a materion i wella plismona. Parhau i gynhyrchu adroddiadau dirnadaeth rhanddeiliaid rheolaidd a gwella ymwybyddiaeth ac effaith mewnwelediadau rhanddeiliaid yn fewnol i lywio ein gwaith, ac yn allanol i ddangos i'n rhanddeiliaid ein bod yn gwranddo ac yn ymateb.
<p>SE: Ymgysylltu cymunedol rhanbarthol</p>
<ul style="list-style-type: none"> Gweithredu ac adnewyddu cynlluniau ymgysylltu lleol yn rheolaidd ar gyfer pob rhanbarth SAYH a Chymru, gan ganolbwyntio ar adeiladu ymwybyddiaeth ac ymddiriedaeth mewn cymunedau sydd â hyder isel. Cefnogi atebolrwydd lleol/cymunedol a chraffu ar blismona. Datblygu ein gallu a'n capasiti i ymgysylltu â digwyddiadau critigol drwy ganllawiau wedi'u diweddarau, hyfforddiant ac adolygiad o adnoddau.
<p>SE: Mewnol</p>
<ul style="list-style-type: none"> Cynorthwyo staff i ymgysylltu'n

- Lansio gwefan newydd y SAYH, a
- Pharhau i dyfu ein cynulleidfa cyfryngau cymdeithasol presennol ac ystyried opsiynau i ddatblygu sianeli cyfryngau cymdeithasol newydd i gynyddu ein cyrhaeddiad

Cyfathrebu: Mewnol

- Rhannu gwybodaeth â chydweithwyr yn gyntaf fel eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu hysbysu a'u cynnwys a datblygu amrediad o gynhyrchion cyfathrebu megis datganiadau sefyllfa a "llinellau uchaf" ar feysydd gweithgaredd allweddol.
- Gwella ein sianeli mewnol, gan gynnwys ail-lansio'r fewnwyd yn llwyr, i sicrhau bod cyfathrebu mewnol yn llyfn, effeithlon ac

- Cefnogi'r fframwaith perthynas â rhanddeiliaid uwch.
- Darparu system rheoli gwybodaeth ganolog hirdymor i rhanddeiliaid.
- Nodi a hyrwyddo cyfleoedd i staff glywed gan ddefnyddwyr gwasanaeth, y rhai sydd â phrofiad o fyw a rhanddeiliaid sy'n gweithio gyda, ac yn cynrychioli, pobl y mae ein gwaith yn effeithio arnynt.
- Cefnogi ymgyrchoedd recriwtio mewn cymunedau amrywiol.

Gweithgarwch materion cyhoeddus

- Cynhyrchu cynllun materion cyhoeddus i gefnogi ein gweithgaredd cynnull a dylanwadu, codi ymwybyddiaeth o'n gwaith, newid camsyniadau a chreu eiriolwyr.
- Gweithio gyda'r Bwrdd Rheoli, y Bwrdd Unedol a Swyddfa Breifat y Cyfarwyddwr Cyffredinol i nodi meysydd lle rydym yn ceisio lloio am newid deddfwriaethol a gweithdrefnol i wella system gwynion yr heddlu a meithrin hyder.
- Datblygu ymgyrchoedd materion cyhoeddus i gefnogi cyflwyno newid yn llwyddiannus.
- Sicrhau bod gan SAYH berthynas ragorol ag aelodau seneddol DU, aelodau'r Senedd, arglwyddi, y gwasanaeth sifil, llywodraeth leol a rhanddeiliaid perthnasol yn y sector cyhoeddus a phreifat.

Bydd y gweithgareddau hyn yn cael eu diweddarau'n unol â chanlyniadau'r cynlluniau cyflawni pan fyddwn yn adolygu'r strategaeth.

Gwerthuso a mesur

Mae angen i ni wella ein hoffer mesur a bydd hwn yn brosiect mwy hirdymor ar gyfer y timau cyfathrebu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Mae angen i ymgysylltu â rhanddeiliaid gasglu data a rhannu gwybodaeth yn well. Cytunwyd ar ateb, ond nid yw wedi'i ariannu ar hyn o bryd. Mae angen i gyfathrebiadau ddod â'i offer mesur gwahanol ynghyd i ddarparu gwell dirnadaeth ac adrodd, ac yna gwneud dadansoddiad o fylchau.

Yn y cyfamser, gall cyfathrebu ac ymgysylltu ddarparu metrigau fel:

- nifer y cyfarfodydd grŵp rhanddeiliaid a chyfeirio cymunedol
- niferoedd mynychu digwyddiadau
- adborth o gyfarfodydd rhanddeiliaid
- arolwg rhanddeiliaid blynyddol gan gwmni ymchwil annibynnol
- nifer yr ymholiadau gan y cyfryngau
- maint y sylw
- ymwelwyr gwefan
- twf a rhyngweithiadau cyfryngau cymdeithasol
- arolwg staff

Bydd datblygu metrigau gwell sy'n cael eu rhannu mewn ffordd fwy cyson a dealladwy yn rhan o'r cynlluniau cyflawni ar gyfer 2023/24.

Byddwn yn defnyddio ein hymchwil presennol o draciwr canfyddiadau'r cyhoedd, arolwg rhanddeiliaid blynyddol ac arolygon staff ac arolygon pwls i lywio'r gwaith o osod dangosyddion perfformiad ar gyfer cyfathrebu ac ymgysylltu. Byddwn yn ceisio:

- **cynnal** ymwybyddiaeth o'r SAYH ymhlith y cyhoedd, y mae'r data tracio canfyddiadau cyhoeddus diweddaraf yn ei ddangos fel 62%
- **cynnal** ymwybyddiaeth o'r SAYH ymhlith rhanddeiliaid (ar hyn o bryd 83% yn ein harolwg rhanddeiliaid diweddaraf) a **gwella** pa mor ffafriol y mae ein rhanddeiliaid yn ein gweld (52% ar hyn o bryd) metrig arolwg
- **mesur** boddhad staff â gweithgarwch cyfathrebu ac ymgysylltu drwy'r arolwg staff ac arolygon pwls rheolaidd

Ochr yn ochr â'r rhain, byddwn hefyd yn gweithio gyda thimau allweddol eraill fel y ganolfan cyswllt cwsmeriaid a'r tîm gwella ansawdd i wella profiad defnyddwyr gwasanaeth a gwybodaeth am yr SAYH.

Adolygu

Mae'r strategaeth hon yn cyd-fynd â'n strategaeth gorfforaethol, 'Meithrin ymddiriedaeth a hyder mewn plismona' felly mae'n cwmpasu'r un cyfnod hyd at 2027. Fodd bynnag, byddwn yn ei adolygu a'i ddiweddarau'n flynyddol.

Cyhoeddwyd Mai 2023

© Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (2023)



Trwyddedir y cyhoeddiad hwn dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni bai lle nodir yn wahanol.

Nid yw hyn yn cynnwys deunydd ar y wefan hon fel deunydd sy'n perthyn i drydydd partion. Rhaid cael caniatâd i ddefnyddio deunydd o'r fath gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

I gael gwybod mwy am ein gwaith neu i ofyn am yr adroddiad hwn mewn fformat arall, gallwch gysylltu â ni mewn nifer o ffyrdd:

Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu
10 South Colonnade Canary Wharf Llundain E14 4PU

Rhif ffôn: **0300 020 0096**

Ebost: enquiries@policeconduct.gov.uk

Gwefan: www.policeconduct.gov.uk

Cyfnwid testun: **18001 020 8104 1220**

